# *Canolfan Feddygol Bron Derw Medical Centre*

# *Ffordd Glynne, Bangor, Gwynedd, LL57 1AH*

# *Taflen Wybodaeth y Practis*



*Am y Practis*

Sefydlwyd y Practis ym 1947 ac fe symudon ni i'n hadeilad pwrpasol presennol yn 2003.

Dr Bethan Jones (Uwch Bartner) a Dr Michael Barker yw’r partneriaid, gyda Dr Andrew Kempster fel partner newydd o 01.09.2024

Cefnogir y Partneriaid gan dîm o glinigwyr sy’n cynnwys Dr Nina Cakiroglu, Dr Manon Gruffydd a Dr Elaine Hampton sef dau Feddyg Teulu cyflogedig yn ogystal ag Uwch Ymarferydd Nyrsio (ANP), Ymarferwyr Nyrsio, Nyrsys Practis a Chynorthwywyr Gofal Iechyd.

Rydym yn bractis sy’n hyfforddi ac rydym yn cynorthwyo hyfforddi cofrestryddion meddygon teulu, meddygon Blwyddyn Sylfaen, myfyrwyr meddygol o Fanceinion a Chaerdydd yn ogystal â Hyfforddeion ANP y Clwstwr.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd meddyg teulu locwm yn ein helpu i gynnal ein gwasanaethau i gleifion.

*Rheoli'r Practis a gweinyddu*

Mae Mrs Sian Lewis, Rheolwr y Practis yn gyfrifol am redeg y Practis o ddydd i ddydd ac mae’n cael ei chefnogi gan ddau Gynorthwyydd, tîm Gweinyddol a thîm Derbynfa (Llyw-wyr Gofal).

*Oriau agor*

Dydd Llun - Dydd Gwener 8:30yb – 6:00yh

*Sut i gysylltu â ni*

Rydym ni'n bractis Digidol yn Gyntaf ac rydym yn eich annog i ofyn am apwyntiad drwy eConsult sydd ar gael yma:www.bronderw.co.uk <http://www.bronderw.co.uk>

ac Enquires.w94034@wales.nhs.uk ar gyfer ymholiadau cyffredinol/anghlinigol.

Prif linell ffôn y feddygfa: 01248 370900 – ar agor 8:00yb - 6:30yh Dydd Llun - Dydd Gwener

Sylwer bod POB cais am apwyntiad Meddyg Teulu neu Ymarferydd Nyrsio yn cael ei frysbennu gan uwch glinigwr er mwyn sicrhau bod apwyntiadau yn cael eu blaenoriaethu'n gywir. Gall hyn gynnwys ymgynghoriad ar yr un diwrnod ar gyfer plant dan 16 oed lle y bo'n briodol ac ar gyfer pob claf y mae angen asesiad ar frys arno.

*Gwasanaethau Eraill*

Gellir archebu apwyntiadau ymlaen llaw ar gyfer:

Anhwylderau anadlol (Asthma/COPD)

Rheoli diabetes

Monitro pwysedd gwaed uchel

Ffordd o fyw

Iechyd menywod, sgrinio serfigol, atal cenhedlu

Imiwneiddio plant/iechyd plant

Fflebotomi

Monitro gwrthgeulo

Y Cohort Cenedlaethol o imiwneiddiadau

Mân lawdriniaeth (pigiadau yn y cymalau yn unig)

Mae ymarferwyr perthynol i iechyd sy'n gweithio yn y practis hefyd gan cynnwys Fferdyllydd clinigol, Ffisiotherapydd, Awdiolegydd, Ymarferydd Lles Teuluol, Therapydd Galwedigaethol iechyd meddwl, y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau,

Archwiliadau meddygol preifat (TAXI, DVLA). Ni allwn gynnig archwiliadau meddygol galwedigaethol.

*Pan fyddwn ni ar gau*

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau – ffoniwch 111 neu ewch ar-lein i NHS 111 Wales – bob dydd rhwng 6:30yh ac 8:00yb, yn ogystal â phenwythnosau a Gwyliau Banc., ac hefyd Gwasanaeth Iechyd Meddwl 111 opsiwn 2

Sylwch fod y gwasanaeth 111 ar gael ar unrhyw adeg ar gyfer ymholiadau iechyd cyffredinol.

*Cysylltu â ni am geisiadau ail bresgripsiwn*

Cynlluniwch ymlaen llaw ar gyfer eich presgripsiynau: caniatewch 2 ddiwrnod gwaith ar gyfer ail bresgripsiynau arferol. Gall ail-gyflwyno ceisiadau neu geisiadau am feddyginiaethau acíwt gymryd hyd at 5 diwrnod neu fwy.

- O 01.03.2024 cleifion i ddefnyddio yr app NHS GIG Cymru
- Defnyddiwch y ffurflen gais am ail bresgripsiwn a'i rhoi yn y blwch wrth y giât ffrynt
- Ysgrifennwch atom/e-bostiwch
- Cofrestrwch ar gyfer gwasanaeth ail bresgripsiwn gan fferyllfa – siaradwch â'ch fferyllfa i drefnu hyn

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir gwneud ceisiadau ffôn am ail bresgripsiwn: PEIDIWCH â gwneud cais dros y ffôn am bresgripsiynau oni bai eich bod wedi cytuno â'r practis ymlaen llaw.

Sylwch y bydd gan fferyllfeydd unigol amserlenni ychwanegol ar gyfer dosbarthu eich meddyginiaethau hefyd.

*Cysylltu â ni am ganlyniadau profion*

Ffoniwch ar ôl 2:00yh i gael canlyniadau profion – gan ddibynnu ar y prawf y gofynnir amdano, gall gymryd hyd at 2 wythnos i ganlyniad y prawf fod ar gael yn y practis.

*Ymweliadau Cartref*

Rydym yn cynnig nifer cyfyngedig o ymweliadau cartref: mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn ôl disgresiwn y meddygon yn unig, a dim ond os ydych chi'n gwbl gaeth i'r tŷ y dylid ei ddefnyddio. Cynhelir unrhyw ymweliadau cartref y cytunir arnynt yn ystod y bore a rhaid gwneud ceisiadau am ymweliadau cartref erbyn 9:00yb.

*Dalgylch y Feddygfa*

- Bangor a'r ardaloedd cyfagos, sy'n cynnwys Bangor, Maesgeirchen, Talybont, Pentir, Tregarth, Bethesda, Abergwyngregin (ond nid Llanfairfechan).
- Porthaethwy, Llanfair PG (hyd at y stryd fawr), Llandegfan (hyd at Benrhyn Safnas – ond nid Biwmares na Phentraeth)

*Cofrestru*

Mae ffurflenni cofrestru ar gael i'w lawrlwytho o wefan y practis www.bronderw.co.uk, neu maent ar gael o'r dderbynfa. Byddwn yn derbyn ceisiadau am gofrestru o'r newydd rhwng 9:00yb a 3:00yh yn unig. Hefyd rhaid llenwi'e holiadur iechyd.

*Cleifion ac ymwelwyr anabl*

Mae ein hadeilad yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd: mae'r holl gyfleusterau ar y llawr gwaelod gyda mynediad hawdd i gadeiriau olwyn a chadeiriau â chymorth. Mae gennym faes parcio anabl 4 bae gyda rampiau, yn ogystal â thoiledau i'r anabl a system dolen glyw. Os bydd angen cymorth arnoch, siaradwch ag aelod o'n tîm derbynfa.

***Cleifion treisgar – Polisi Dim Goddefgarwch***

**Ni fydd y Practis yn goddef unrhyw drais yn erbyn ein staff (yn gorfforol, ar lafar, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) a bydd unrhyw ymddygiad o'r fath yn arwain at dynnu'r claf oddi ar restr y practis.**

*Safonau Mynediad Cymru Gyfan ar gyfer ymgynghoriadau/apwyntiadau*

- Pan fyddwch chi'n cysylltu â'r feddygfa, byddwch chi'n cael eich trin yn deg beth bynnag fo'r dull o gysylltu a ddewiswch chi.

- Os byddwch yn dewis cysylltu â'r Feddygfa dros y ffôn, bydd aelod o staff wedi'i hyfforddi yn ateb eich galwad ac yn asesu eich anghenion clinigol. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y cymorth gorau, efallai y cewch eich cyfeirio at wasanaeth arall. Byddwn yn esbonio'r rhesymau dros wneud hyn yn glir.
- Pan fo mynediad at wasanaeth (e.e. ymgynghoriad) yn glinigol briodol, byddwch yn cael eich asesu a chynigir ymgynghoriad priodol i chi, ar adeg briodol heb fod angen i chi ffonio'n ôl. Gall hyn olygu bod apwyntiad yn cael ei drefnu ar gyfer dyddiad yn y dyfodol ond bydd yn gyson â'ch anghenion clinigol chi.
- Byddwch yn gallu cysylltu â'r feddygfa drwy wasanaeth ar-lein (Econsult) neu Facebook a byddwch yn derbyn gwasanaeth tebyg i'r sawl sy'n cysylltu â ni dros y ffôn.
- Bydd y feddygfa yn agored ac yn onest am y gwasanaethau a gynigir, sut i gael mynediad atynt a sut i gael mynediad at wasanaethau ychwanegol neu wasanaethau amgen pan fo angen.

*Cyfrinachedd*

Rydym yn cadw cofnodion meddygol cleifion yn gwbl gyfrinachol. Ni fyddwn byth yn trosglwyddo gwybodaeth heb ganiatâd (oni bai ei fod o fewn terfynau Clystyrau Gofal Sylfaenol y GIG, yn ôl gofyniad cyfreithiol neu os yw er budd y cyhoedd). Rydym yn rhannu rhywfaint o ddata dienw am gleifion ar gyfer archwiliadau iechyd cyhoeddus, ymchwil, addysgu a hyfforddiant. System VISION Health yw enw system gyfrifiadurol y Practis. Caiff ei chefnogi gan DCHW – Gwybodeg GIG Cymru a'i chofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

*Canmoliaeth a chwynion*

Rydym yn anelu at roi'r gwasanaeth gorau posibl: os oes gennych ganmoliaeth, pryder neu gŵyn am y practis ysgrifennwch at Reolwr y Practis, Mrs Sian Lewis. Ymchwilir i bob pryder a chwyn o dan arweiniad 'Gweithio i Wella' GIG Cymru.

Os yw eich canmoliaeth, pryder neu gŵyn yn ymwneud â mater GIG sydd y tu allan i'r practis megis am ysbyty, nyrsio cymunedol neu ofal iechyd arall - cysylltwch â PALS (Gwasanaethau Cyngor a Chyswllt Cleifion) ar 03000 851234 BCU.PALS@wales.nhs.uk

*Bwrdd Iechyd Lleol*

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Eryldon, Ffordd Campbell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1HU

BCU.PrimaryCareContracting@wales.nhs.uk